ColegauCymru
CollegesWales

Yn codi proffil addysg bellach
Raising the profile of further education

newyddion Cymraeg ColegauCymru #171
26 Ionawr 2015

Croeso i e-newyddion ColegauCymru yn y Gymraeg - y diweddariad wythnosol o newyddion colegau addysg bellach Cymru.

Gobeithio y mwynhewch y gwasanaeth newydd!

Rydyn ni wrthi ar hyn o bryd yn diweddaru ac yn mireinio'r bas-data o danysgrifwyr. Ymddiheurwn os ydych wedi derbyn y rhifyn hwn ar gam. Cysylltwch da chi os hoffech dynnu eich enw o'r tanysgrifiad Cymraeg.

Welcome to Welsh language edition of the CollegesWales e-news, the weekly roundup of news from across education colleges in Wales.

We hope you enjoy the new bilingual service!

We are in the process of updating and perfecting our database of subscribers. We apologise if you have received this edition in error. Do please let us know if you would like to remove your name from the Welsh-medium subscription.

Datblygiadau Strategol

Partneriaeth Prifysgol a Cholegau yn Cryfhau Pêl-droed Elît yng Nghymru

Roedd y bartneriaeth newydd rhwng Prifysgol Fetropolitan Caerdydd a Chwaraeon Colegau Cymru i gryfhau pêl-droed coleg ar y lefel uchaf i'w gweld ddydd Gwener diwethaf, gyda'r tîm pêl-droed cenedlaethol yn chwarae ysgolion Awstralia. Mwy>>>

Coleg yn derbyn £100,000 ar gyfer datblygiadau arloesol

Mae Coleg y Cymoedd wedi derbyn grant o £100,000 i sefydlu canolfan ragoriaeth i gyflenwi hyfforddiant o'r ansawdd flaenaf ar gyfer peirianwyr rheilffyrdd.
Mwy>>>

Prentisiaethau chwaraeon newydd

Mae dysgwyr o Goleg y Cymoedd ymhlith y cyntaf yng Nghymru i ennill cymhwyster chwaraeon newydd wrth i'r coleg beilota cynllun mewn partneriaeth â SkillsActive â Chynghrair Rygbi Cymru i ddatblygu prentisiaethau newydd sbon ar gyfer Cymru gan ganolbwyntio ar ragoriaeth chwaraeon.
Mwy>>>

Staff o Ansawdd

Darlithydd yn rhan o ddirprwyaeth ymchwil rhyngwladol i Ethiopia

Mae darlithydd Celf a Dylunio o Goleg Ceredigion newydd ddychwelyd o daith i De Ethiopia fel rhan o brosiect yn ymchwilio tarddiad dyn a'r berthynas â newid hinsawdd.
Aeth yr artist Julian Ruddock gyda dirprwyaeth o wyddonwyr pridd o gydweithrediad gwyddonol rhyngwladol o brifysgolion o bob cwr o'r byd.
Mwy>>>

Gwahodd pennaeth cwricwlwm yn brif siaradwraig y Symposiwm Print

Mae artist gweithredol a phennaeth cwricwlwm yng Ngholeg Sir Gâr wedi cael ei gwahodd i fod yn brif siaradwraig a hwylusydd gweithdy yn nigwyddiad blynyddol y Symposiwm Print, a gynhelir yng Ngholeg Cambria.
Mwy>>>

Llongyfarchiadau! Llwyddiant Myfyrwyr

Pêl-droed Colegau Cymru yn cofnodi dwbl hanesyddol dros Ysgolion Awstralia

Dydd Gwener 23 Ionawr, 2015: y diwrnod trechodd timoedd dynion a merched Colegau Cymru ysgolion Awstralia ym mhêl droed
Mwy>>>

Cogydd Iau'r Flwyddyn Gogledd Cymru

Enwyd sam Ricketts, cyn-fyfyriwr lletygarwch o Grŵp Llandrillo Menai, yn gogydd iau'r flwyddyn ar gyfer Gogledd Cymru.
O ganlyniad bydd yn mynd ymlaen i'r rownd derfynol genedlaethol fydd yn cael ei chynnal ar drothwy Pencampwriaethau Coginio Rhyngwladol Cymru fis Chwefror.
Mwy>>>

Cylchgrawn UDA yn rhoi sylw ar gyn-fyfyriwr Coleg Sir Benfro

Mae'r cylchgrawn NAILPRO yn Unol Daleithiau'r America wedi rhoi sylw ar lwyddiant cyn-fyfyriwr celf ewinedd Coleg Sir Benfro, Sally Sanderson.
Mwy>>>

Cyfleodd Dysgu

Cronfa Arloesi yn gyfrwng i ymchwil STEM

Mae myfyrwyr Coleg Gŵyr Abertawe yn cychwyn ar amrywiaeth o brosiectau ymchwil STEM, diolch i'r Gronfa Arloesi a

Chynllun Addysg Beirianneg Cymru (EESW).
Gan gydweithio â Tidal Lagoon (Swansea Bay) plc a Dŵr Cymru ar broblemau go iawn a wynebir gan ddiwydiant, bydd y myfyrwyr yn ennill Gwobr Aur CREST gan Gymdeithas Wyddoniaeth Prydain ar sail eu hymchwil.
Mwy>>>

Cwmni dawns yn cytuno i weithio gyda myfyrwyr gradd

Mae tîm dawns Coleg Sir Gâr wedi buddsoddi mewn cwmni sydd wedi ennill gwobr Bafta Cymru i weithio gyda'i fyfyrwyr gradd bob wythnos.
Mwy>>>

Gweithdai Dawns o Fri

Bu dawnswyr o 2FaCeD Dance Company, ar gyfnod preswyl yng Ngholeg Penybont ym mis Ionawr, yn creu darn newydd o waith gyda myfyrwyr y Celfyddydau Perfformio a fydd yn cael ei berfformio yng Nghanolfan y Celfyddydau Taliesin yn ddiweddarach eleni fel rhan o daith y cwmni.

Dros yr un cyfnod, bu Nick Evans, yn ffres o daith y byd fel Cyfarwyddwr Preswyl "Mamma Mia", yn creu darn drama gerddorol gyda myfyrwyr y Celfyddydau Perfformio yn seiliedig ar waith Richard Burton. Caiff ei arddangos yng nghyngerdd Dydd Gŵyl Dewi y Coleg.
Mwy>>>

Myfyrwyr Yn Dysgu o Sioe Autosport

Bu myfyrwyr cerbydau modur o gampws Aberteifi Coleg Ceredigion yn ymweld ag un o brif ddigwyddiadau yn y calendr diwydiant chwaraeon modur, Autosports International, a oedd yn cynnwys arddangoswyr lu, o gyflenwyr rasio arbenigol i weithgynhyrchwyr mawr fel Ferrari, Maserati a McClaren.
Mwy>>>

Ymweliad gan Barbwr y Flwyddyn

Daeth barbwr a enillodd wobrau lu i gampws Llandrillo Grwp Llandrillo Menai yr wythnos ddiwethaf i gynnig dosbarth meistr i fyfyrwyr yr adran trin gwallt, yn ogystal â phrentisiaid a staff o salonau trin gwallt o Lannau Dyfrdwy i Gaernarfon.
Mwy>>>

Cysylltiad Prifysgol

Mae myfyrwyr TechGwyb Campws Aberteifi Coleg Ceredigion wedi bod yn dysgu o Arddangosfa Brandio Ffasiwn, Hysbysebu a Dylunio Brand ym Mhrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant, a chael cyfle i drafod prosiectau a phrosesau

gwaith myfyrwyr y brifysgol.
Mwy>>>

Colegau yn y Gymuned

Digwyddiad ar gyfer y diwydiant peirianneg amaethyddol

Mewn partneriaeth â Sefydliad y Peirianwyr Amaethyddol (IAgrE), mae Coleg Sir Gâr yn cynnal digwyddiad ar gyfer delwyr peiriannau, contractwyr fferm a pheirianwyr.
Mwy>>>

ColegauCymru, Uned 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB
CollegesWales, Unit 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Cardiff, CF15 7AB